0132

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn Mhrif Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Heol y Cilgant, Llandeilo, ar ddydd Mawrth 16eg Rhagfyr 2003 am 7.00 pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Cadeirydd), Cyng S. Burge, Cyng K. Day, Cyng C. Jenkins, Cyng C. Cooper, Cyng I. Gwyn, Cyng R. Bellamy, Cyng D. Williams
Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref), R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), Sgt. N. Jones (Swyddog yr Heddlu)

5944: Ymddiheuriadau: Dim. Ymddiheurodd y Cyng. K. Day am yr oedi wrth dderbyn cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol.

5945: Cofnodion o gyfarfod blaenorol o'r Cyngor Llawn, a gynhaliwyd ym Mhrif Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Llandeilo, ar ddydd Mawrth 18fed Tachwedd 2003.

5917: Yn lle'r gair 'y Pwyllgor' dylid nodi 'y Cyngor'

Derbynnir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 18fed Tachwedd 2003, gan y Cyngor fel cofnod cywir. Cynigir gan y Cyng. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Bellamy.

5946: Materion yn Codi:

5915: Mae'r gwaith o greu'r Wefan ar waith, a gellir gweld y Wefan ar www.orchardweb.co.uk/llandeilo.

Bydd cyflwyniad ar y wefan yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Bydd lansiad swyddogol o Wefan Llandeilo Fawr yn digwydd ar yr un diwrnod â'r Diwrnod Agored a gynhelir fel rhan o'r Arolwg Treftadaeth ar ddydd Sadwrn 17eg Chwefror yn Festri Capel Newydd.

Cynhelir lansiad swyddogol o Arolwg Treftadaeth Llandeilo ar ddydd Mercher Ionawr 21ain yn festri Capel Newydd rhwng 7.30 a 9.00pm. Bydd hwn yn gyfarfod cyhoeddus a bydd Jenny Hall a Paul Sambrook yn annerch yn y cyfarfod er mwyn cyflwyno'r broses archwilio.

5855:Yr Ardd ar y Cilgant. Mae'r Cyngor wedi derbyn dogfennau yn ymwneud â phwy oedd yn berchen ar yr ardd a sut mae'r broses o brynu yn mynd yn ei blaen.

5890: Mae gan y Swyddog Technegol allwedd i'r storfa wrth ymyl y toiledau cyhoeddus ac felly mae yna gyflenwad d r ar gael.

5920: Cyn belled ag y mae enwi'r Strydoedd yn y cwestiwn, dywedodd y Cynghorydd Sir I. Jones fod gan y Cyngor Tref rôl. Serch hynny, nid yw'r Cyngor Sir fel arfer yn ymgynghori os yw'r datblygiad newydd yn llai na chwe adeilad.

5918: O ganlyniad i'r sesiwn Côd Ymddygiad mae bellach yn wybyddus fod gan y Cyngor ddiddordeb cynrychiadol yng Nghymdeithas Cymunedol Llandeilo. Mae'r ffurflen ofynnol wedi'i llanw a'i hanfon ac mae'r Cyngor yn aros am ganiatâd cyffredinol.

5926: Roedd 'Cynnau'r' Goleuadau Nadolig wedi bod yn llwyddiannus iawn. Diolchodd y Maer, ar ran y Cyngor, i bawb oedd yn rhan ohono.

Y siec oedd yn wobr i Cutting Edge i'w dileu ac angen anfon un newydd, gan ei bod wedi'i thaflu mewn camgymeriad.

5947: Materion yr Heddlu: Mynychwyd y cyfarfod gan Sarsiant N. Jones. Ni chodwyd unrhyw faterion pwysig. Dros yr ychydig ddiwrnodau diwethaf mae'r Heddlu wedi cynyddu nifer y plismyn sydd ar droed dros gyfnod y Nadolig. Diolchodd y Maer yr heddlu am eu gwaith pan y cynnau'r goleuadau Nadolig gan ddiolch iddo hefyd am fynychu'r cyfarfod.

5948: Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid.

Derbyniwyd gofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 3ydd Rhagfyr fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Cooper.

Materion yn Codi:

5935: diwygio er eglurdeb, mewn perthynas â'r dyfynbrisiau a dderbyniwyd i osod ffenest newydd yn y Neuadd Sirol (Cyflenwi yn unig) yn cynnwys un am swm o £1380 heb gynnwys gwydr ac un oddi wrth P.F. Joinery am £1150 + TAW.

Y bwriad yw bod y Cyngor yn derbyn yr un olaf hyd nes derbyn dyfynbrisiau am osod y ffenest.

5933: Argymhellwyd bod y Cyngor yn cadw'r archebiant blynyddol fel ag y mae am y flwyddyn 2004/2005 sef £33690.05.

Mae'r Cyngor yn derbyn argymhellion y Pwyllgorau bod yr archebiant blynyddol yn cael ei osod ar £33690.05 am y flwyddyn 2004 –2005. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy eiliwyd gan y Cyng Cooper.

Derbynnir gofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid ac mae'r argymhellion hynny wedi'u derbyn gan y Cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng

Gwyn.

0134

5949: Y rheiliau ar y Cilgant. Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn tri dyfynbris ar gyfer y gwaith hwn. CT Fabrications (£9997.00+ TAW), Peel Weld (£198 fesul m am oddeutu 114m £22572.00) ac o Tumble Forge (£22280.00 + TAW). Nid oedd CT Fabrications yn gallu gwneud y gwaith haearn gyr sy'n angenrheidiol, dyma pam fod y dyfynbris yn isel.

Y dyfynbris y mae'r Cyngor yn ei dderbyn fel yr un gorau yw £22280.00 oddi wrth Tumble Forge, yn ddibynnol ar y wybodaeth a geir am grant.

5950: Mae'r Maer yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cais am grant oddi wrth y Siambr Fasnach er mwyn ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb ar gyfer defnydd o'r Neuadd Sirol yn y dyfodol, yn arbennig fel Canolfan Dreftadaeth/Ymwelwyr. Mae'r grant sydd ar gael hyd at uchafswm o £4000.00 ac mae ar gael o'r un gronfa grantiau â'r un y mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn ymgeisio amdano sef yr Archwiliad Treftadaeth.

Cefnogwyd y cais gan y Cyngor ac mae'r Clerc i ysgrifennu llythyr yn rhoi caniatâd y Cyngor er mwyn i ymgynghorwyr fynd o amgylch y Neuadd Sirol, ar yr amod bod caniatâd y Tenantiaid yn cael ei dderbyn yn gyntaf. Dylid hysbysu'r Cyngor yngl n â'r datblygiadau. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Cooper.

5951: Rhybudd o Gynnig.

Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog lle maent yn cyfeirio at faterion ariannol i ddarllen 'gweler Rheolau Ariannol' a Rheolau Ariannol (5922) a fabwysiadwyd i'w hatodi i'r Rheolau Sefydlog. Cynigiwyd gan y Cyng Cooper, eiliwyd gan y Cyng Day gyda phawb o blaid.

Y Clerc i ddarparu cop ï au newydd o'r Rheolau Sefydlog Diwygiedig a'r Rheoliadau Ariannol i Gynghorwyr.

5952: Adroddiadau o gyfarfodydd a fynychwyd: Mynychwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Gymunedol gan y Cyng Jenkins. Mae C.S.C. wedi newid amodau arfaethedig les y Neuadd Ddinesig am 21 i 125 o flynyddoedd, heb unrhyw newid ar gynnal a chadw'r adeilad. Mae'r arian sydd ar gael hefyd wedi'i newid o £30 000 dros 3 blynedd i £48 000 dros gyfnod o 6 blynedd. Mae yna amharodrwydd i ymgymryd â'r gwaith o gynnal y Neuadd Ddinesig o dan yr amodau les presennol hyd nes y bydd gwaith atgyweirio yn cael ei wneud ar y neuadd. Mae Cynllun Busnes yn cael ei lunio ac mae'r Gymdeithas Gymunedol yn ystyried pob opsiwn. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ddydd Mawrth 27ain Ionawr yn y Neuadd Sirol. Mae'r Cyng Jones, Cyng Gwyn a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod yn ymwneud â'r asesiad risg arfaethedig ar gyfer Cyngor y Dref gyda Mr Ray Smith o RTS

associates. Byddai Mr Smith yn cynnig dyfynbris ar gyfer gwneud asesiad risg i'r Cyngor Tref gan sefydlu Polisi Iechyd a Diogelwch.
Cyflwynwyd adroddiad gan y Maer yngl n â mis prysur arall.

0135

Mae'r broses o gynnal Archwiliad Treftadaeth eisoes ar y gweill. Cynigiwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer Dyddiaduron aelodau. Bydd y broses yn cychwyn ar ddydd Mercher 21ain Ionawr 2004 rhwng 7.30 a 9.00pm, yn Festri Capel Newydd gyda sgwrs gan Jenny Hall a Paul Sambrook o Archaeoleg Cambria. Byddant yn arwain y broses Archwilio, dangosir fanylion yr archwiliad yn y cyfarfod hwn gan ofyn am fewnbwn gan y cyhoedd. Bydd y Cyngor yn cynnal Diwrnod Agored ar ddydd Sadwrn 21ain Chwefror 2004. Bydd yn cynnwys arddangosfa o Ffotograffau D. C. Harris a hefyd Lansio Gwefan y Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno i ariannu darparu lluniaeth ar gyfer y noson. Cynhelir y cyfarfod terfynol pan y cyflwynir yr Archwiliad Treftadaeth wedi'i gwblhau ar yr 17eg Mawrth (Amser a Lleoliad i'w cyhoeddi).

5953: Gohebiaeth:

Mae'r Cyngor yn cytuno i dalu £120.00 i Mr H. Towns fel ffi am ei wasanaethau fel yr Archwiliwr Mewnol. Cynigiwyd gan y Cyng Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Cooper.

Ffordd Liniaru Llandeilo a phroblemau Traffig yn Stryd y Bont/Stryd Rhosmaen. Mae llawer o ohebiaeth wedi'i anfon mewn perthynas â'r materion hyn ac mae'r Cyngor yn teimlo'n gryf fod y materion yn parhau heb eu datrys ers cryn dipyn o amser.

Ffordd Liniaru Llandeilo a phroblemau traffig ar Stryd y Bont a Stryd Rhosmaen, i'w osod fel Eitem Agenda ar gyfer cyfarfod mis Ionawr. Penderfynodd y Cyngor lunio Cynllun Gweithredu.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm.

0135